

# DOLEN Y TAB – 20

## 4–5 Medi 2020

**\*\*DYDD SUL 6 MEDI\*\***

*Oedfa yng ngofal aelodau Efail Isaf.*

### OEDFAON GWEDDILL MIS MEDI

**13 Medi**

*Y Parchg. Aled Edwards*

**20 Medi**

*Oedfa Deuluol*

**27 Medi**

*Y Parchg. Gethin Rhys*

***Os na chlywch yn wahanol, bydd pob un o'r oedfaon hyn ar gael ar ein llwyfannau arferol.***

***Cofiwch hefyd bob dydd Sul am . . .***

- **12.00**  
Oedfa Radio Cymru
- **12.30**  
Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.
- **E-fwletin** *Cristnogaeth21* ar eu gwefan [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

### Dymuniadau Gorau

Dros y misoedd a'r wythnosau diwethaf mae nifer o'n haelodau wedi dioddef anhwylder. Estynnwn ein dymuniadau gorau am wellhad buan i'r canlynol y gwyddom amdanynt – Carol Williams, Keith Rowlands a Judith Thomas – a hefyd i unrhyw un arall sydd wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar.

## *Canfod Crair Annisgwyl*



Ers dechrau'r cyfnod clo, mae nifer dda o bobl nad ydynt yn aelodau o'r eglwys wedi gofyn am ganiatâd i ymuno â thudalen *Facebook* y Tabernacl. Gan amlaf, mae'r unigolion sy'n anfon cais felly atom yn hysbys i'r aelodau sy'n gweinyddu'r safle. Ond yn ddiweddar derbyniwyd cais gan ŵr o'r enw Gareth Williams nad oedd yn gyfarwydd i ni. Felly, pan holwyd ef pam roedd yn awyddus i ymaelodi â'r dudalen, syndod pleserus iawn oedd derbyn y llun uchod ganddo fel esboniad. Llun ydyw o gas sbectol arian wedi ei engrafu'n gywrain a gyflwynwyd i'r Parchedig John 'Taihirion' Davies ym mis Medi 1901 ar achlysur dathlu'r ffaith iddo gyrraedd carreg filltir bwysig iawn, sef cwblhau hanner can mlynedd fel gweinidog y Tabernacl. Mae'n dda gweld bod y cas wedi derbyn pob gofal dros gyfnod o 119 o flynyddoedd, ac nid dyma unig grair o gyfnod Taihirion sydd bellach ym meddiant Gareth. Roedd hi'n amserol iawn derbyn yr wybodaeth hon o fewn ychydig wythnosau i ddathlu 150 o flynyddoedd ers ailadeiladu'r Tabernacl – un o gymwynasau mwyaf 'Taihirion' i'r achos yn Efail Isaf. Da hefyd deall bod y cas sbectol yn cael ei drysori a'i werthfawrogi wedi'r holl flynyddoedd. Er gwybodaeth, ceir cyfeiriad at y Cyfarfodydd Jiwbil a gynhaliwyd i anrhegu 'Taihirion' yn ôl yn 1901 yn y llyfryn *Dathlu'r 150* (tud. 9), lle nodir iddo hefyd dderbyn portread olew a beintwyd gan yr arlunydd Ap Caledfryn.

### **Bwrdd y Cyfarwyddwyr**

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd yn y Tabernacl am 7.30 nos Fawrth 8 Medi.

Os oes unrhyw fater gennych yr hoffech ei godi, yna rhowch wybod i'r Ysgrifennydd, Gwilym Huws ([gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205 / 07710 237327) erbyn nos Sul 6 Medi fan bellaf.



# Sul yr Hinsawdd

Diddorol oedd darllen cyngor craff ac amserol awdur anhysbys e-fwletin Cristnogaeth21 ddydd Sul diwethaf (30 Awst) – neges oedd wedi'i hanelu'n bennaf at y rhai hynny sy'n ein llywodraethu, ond neges sydd hefyd yr un mor berthnasol i'n heglwysi, sef sut mae mynd ati i ddewis y llwybr gorau wrth wneud penderfyniadau anodd i oresgyn yr argyfyngau niferus rydym yn eu hwynebu. Yn annisgwyl, efallai, caiff yr awdur ateb i'r cwestiwn hynod o gyfoes hwn drwy droi'n ôl i'r seithfed ganrif Cyn Crist gan ddyfynnu o lyfr Habacuc: *'Safaf ar fy nisgwylfa, a chymryd fy safle ar y tŵr; syllaf i weld beth a ddywed wrthyf, a beth fydd ei ateb i'm cwyn. Atebodd yr ARGLWYDD fi: "Ysgrifenna'r weledigaeth, a gwna hi'n eglur ar lechen, fel y gellir ei darllen wrth redeg; oherwydd fe ddaw eto weledigaeth yn ei hamser – daw ar frys i'w chyflawni, a heb ball. Yn wir nid oeda; disgwyl amdani, oherwydd yn sicr fe ddaw, a heb fethu."'* [2 Habacuc, 1–3]. Os nad ydych eto wedi darllen y bwletin, yna byddwn yn ei gymeradwyo fel dadansoddiad dilys sy'n esbonio diffygion gwleidyddiaeth i ddatrys argyfyngau'r dyddiau hyn.

Yn naturiol ddigon, dros y misoedd diwethaf mae sylw'r byd cyfan wedi'i ganolbwyntio bron yn llwyr ar ddod o hyd i'r ffordd orau o ymateb i argyfwng Covid-19. Yma yng Nghymru, fel yng ngweddill y Deyrnas Gyfunol, mae arweinwyr pob plaid yn lladd ar ei gilydd er mwyn ceisio ennill 'pwyntiau gwleidyddol', gan anwybyddu neu anghofio'n fwiadol bod adroddiadau gwyddonwyr ers degawd a mwy wedi rhybuddio nad oedd unrhyw baratoadau ar droed gan y wladwriaeth i wrthsefyll argyfwng pandemig. Gresyn nad oedd ein harweinwyr yn ymwybodol o neges Habacuc.

Mewn gwirionedd, nid Cofid-19 yw'r unig argyfwng, nac ychwaith yr argyfwng mwyaf, sy'n ein hwynebu. Dros y degawdau diwethaf daeth yr argyfwng newid hinsawdd yn fwy o fgythiad i'r byd, ac mae'r amser i rwystru'r trychineb mwyaf a welodd y ddaear ers miloedd os nad miliynau o flynyddoedd yn prnhau. Ddwy flynedd yn ôl, rhybuddiodd gwyddonwyr mwyaf blaenllaw y byd mai ychydig dros ddegawd oedd ar ôl i'r ddynoliaeth dorri i lawr yn llym ar allyriadau nwyon tŷ gwydr os am unrhyw siawns o gadw tymheredd y byd o dan 1.5 gradd uwchlaw'r cyfartaledd cyn y Chwyldro Diwydiannol.

Ond wrth lansio Sul yr Hinsawdd – menter clymblaid eang o elusennau ac enwadau Cristnogol – yr wythnos hon mae Andy Atkins yn obeithiol bod rhai arwyddion cadarnhaol a gododd yng nghanol trasiedi Covid-19 sy'n werth eu cofleidio a'u

cymhwyso i gyd-destun newid hinsawdd. Er enghraifft, meddai, *'mae'r gwledydd hynny a weithredodd yn gynnar ar sail gwyddoniaeth gadarn wedi dioddef llai; mae llywodraethau a phobloedd yn gallu gweithredu'n hynod o gyflym ac mewn ffyrdd radicalaidd iawn os ydynt yn deall yr angen'.*

Ym mis Tachwedd 2021 cynhelir trafodaethau hinsawdd COP26 yn Glasgow; bwriad y fenter yw bod holl eglwysi'r Deyrnas Gyfunol yn gweddio a gweithredu ynghylch yr argyfwng hinsawdd yn yr un modd ag y mae'r eglwysi wedi'i wneud mor wych mewn ymateb i'r pandemig Cofid-19. Mae'r fenter yn gwahodd eglwysi i wneud un neu ragor o'r canlynol rhwng 6 Medi 2020 a diwedd Awst 2021:

1. Cynnal gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr hinsawdd, gan ystyried seiliau diwinyddol a gwyddonol gofalu am y greadigaeth . . . ac ymrwymo i weithredu.
2. Gwneud ymrwymiad fel cymuned eglwysig leol i weithredu'n hirdymor i leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr ei hun.
3. Uno ag eglwysi eraill a'r gymuned ehangach i alw ar lywodraeth y Deyrnas Gyfunol [a Llywodraeth Cymru] i weithredu mewn ffyrdd mwy radical i fynd i'r afael â newid hinsawdd cyn cynnal COP26.

Yna, ddydd Sul 5 Medi 2021, ddeufis cyn trafodaethau COP26, cynhelir digwyddiad *Sul yr Hinsawdd* i ddathlu'r ymrwymadau a wnaed gan eglwysi lleol dros y flwyddyn flaenorol.

Gobeithio'n fawr y bydd Capel y Tabernacl yn dilyn arweiniad Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i gefnogi'r fenter hon, sef mater *'moesol, bugeiliol, economaidd ac amgylcheddol pwysicaf ein hoes'.*

## Capel y Tabernacl Cyf.

### Rheolwr Safle

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach a thelerau'r swydd, cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West [mikealynwest@yahoo.co.uk](mailto:mikealynwest@yahoo.co.uk) / 01443 206833  
Gwilym Huws [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 01443 225205

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i: [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.*